Eisteddfod Penrhyn-coch

Cafwyd noson o gystadlu brwd yn Neuadd y pentref a braf oedd gweld cymaint o blant a'u rhieni wedi troi allan. Llongyfarchiadau i'r plant i gyd a llongyfarchiadau arbennig i'r côr iau am gipio'r wobr gyntaf.

Llangrannog

Bu nifer o blant dosbarth 3 yn Llangrannog yn bwrw'r Sul yn ddiweddar. Yn ôl pob sôn cafwyd amser penigamp ac roedd llawer i un yn gysglyd y bore Llun canlynol.

Proms ysgolion cynradd

Roedd y Neuadd Fawr dan ei sang pan ddaeth tyrfa fawr ynghyd i fwynhau cyngerdd gan Cerddorfa'r Sir, Côr Cynradd Ceredigion a phigion o eitemau buddugol eisteddfod yr Urdd. Cafodd ein parti dawnsio gwerin gyfle i arddangos eu doniau a braf oedd gweld nifer o'n disgyblion hynaf yn cynrychioli'r ysgol yn y gerddorfa a'r côr.

Glan-llyn

Ar ddechrau mis Mai bu blwyddyn 6 a Mr John yng Ngwersyll Glan-llyn am bedwar diwrnod. Cafwyd amser gwych ac roedd criw blinedig iawn yn dychwelyd nôl i'r ysgol. Cafodd y plant gyfle i brofi'r amryw weithgareddau a cwrdd â ffrindiau newydd o wahanol ysgolion.

Twrnament Pêl-droed Mini Minors

Chwaraewyd sawl gêm galed gan fechgyn y timau pêl-droed. Da iawn chi fechgyn. Llongyfarchiadau i dîm y Penrhyn a ddaeth yn ail yn y twrnament.